Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Systemau Cyflogres Ar-lein

Mae meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein yn defnyddio cysylltiadau band eang a rhyngrwyd cyflym i ddarparu mynediad unrhyw le / unrhyw bryd i gyflogwyr i'r swyddogaethau sydd eu hangen arnyn nhw i ddiwallu eu hanghenion o ran prosesu ac adrodd ar y gyflogres.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

Undeb Ewropeaidd European Union

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Systemau Cyflogres Ar-lein

Mae meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein yn defnyddio cysylltiadau band eang a rhyngrwyd cyflym i ddarparu mynediad unrhyw le / unrhyw bryd i gyflogwyr i'r swyddogaethau sydd eu hangen arnyn nhw i ddiwallu eu hanghenion o ran prosesu ac adrodd ar y gyflogres.

Gan fod llawer o'r anghenion hyn yn cael eu penderfynu gan statud, mae'r rhan fwyaf o'r systemau sydd ar gael ar-lein yn cydymffurfio â hanfodion TWE Cyllid a Thollau EM (CThEM). Ond gall y gost, y broses sefydlu, pa mor hawdd ydyn nhw i'w defnyddio a'r gallu i ddiwallu anghenion mwy arbenigol rhai cyflogwyr, a rhagor, amrywio'n sylweddol.

Ymhlith yr offer cyflogres ar-lein mae: Ffurflenni ar-lein CThEM, meddalwedd cyflogres arbenigol, swyddogaethau'r gyflogres a geir mewn rhai systemau cadw llyfrau a chyfrifon, ac amrywiol fathau o wasanaeth a reolir ac a roddir ar gontract allanol.

> Mae meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein yn amrywio'n fawr o ran costau a galluoedd felly mae'n werth treulio amser yn sicrhau eich bod yn gwneud y dewis cywir ar gyfer eich busnes.

## Deall

### Beth Mae'r Dechnoleg yn ei Wneud?

Byddwch angen llinell ffôn sefydlog neu symudol a mynediad i'r rhyngrwyd drwy fand eang i fanteisio ar feddalwedd a/neu wasanaethau meddalwedd cyflogres ar-lein. Ond mae'r ffyrdd y mae'r dechnoleg gysylltiedig yn cael ei strwythuro, ei pherchenogi a'i rheoli yn amrywio rhwng cyflenwyr ac mae eu gwasanaeth yn amrywio a defnyddir mathau gwahanol o 'gwmwl'.

#### Deall y cwmwl

Mae rhai gwerthwyr yn lletya eu cyflogres fel 'Meddalwedd fel Gwasanaeth' o gymylau 'cyhoeddus', lle mae adnoddau meddalwedd a chaledwedd (megis lle storio data) yn cael eu rhannu. Mae cyflogwyr yn talu tanysgrifiad misol i gael mynediad i'r feddalwedd cyflogres ar-lein hon 'ar gais' ac yna'n ei defnyddio i brosesu ac adrodd ar eu cyflogres eu hunain.

Mae cyfrifiadura cwmwl hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod adnoddau cyflogres ar-lein ar gael o gymylau 'preifat' lle ceir mynediad mwy cyfyngedig. Mewn llawer o sefyllfaoedd, darparwr y gwasanaeth sy'n berchen ar y galedwedd a/neu'r feddalwedd; ond gallen nhw fod yn eiddo i chi a chael eu rheoli ar eich rhan (ynghyd â meddalwedd busnes arall). Gallai un sefydliad neu lawer o sefydliadau (tenantiaid amryfal) ddefnyddio'r adnoddau hyn. Fel arfer mae hyn yn cynnig mwy o lefelau gwasanaeth a lefelau gwasanaeth amryfal.

Oherwydd bod y gyflogres yn un o'r meysydd busnes cyntaf lle y darparwyd meddalwedd a gwasanaethau arbenigol gan ddarparwyr allanol, mae'r farchnad yn gymharol aeddfed. Felly, mae llawer o fathau gwahanol o sefydliadau yn cynnig mynediad ar-lein i ryw ffurf ar wasanaeth cyflogres neu feddalwedd cyflogres a reolir ac mae'r rhain yn dibynnu ar dechnoleg i wahanol raddau.

### Cysylltedd

Mae'n dod yn gynyddol haws cysylltu mathau gwahanol o gymwysiadau meddalwedd a gwasanaethau yn y cwmwl, yn aml drwy ddefnyddio dulliau ‘pwyntio a chlicio’ lle nad oes angen unrhyw sgiliau rhaglennu na gwybodaeth arbenigol. Felly gall meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein (a'r data cysylltiedig) gael eu cysylltu'n hawdd â'r ystod gynyddol o feddalwedd busnes a gwasanaethau eraill sydd ar gael ar-lein a'u gosod ar eich cyfrifiaduron.

# Mabwysiadu

## Sut Mae Dechrau?

### Dechreuwch gyda'r hanfodion

Cyn ichi allu manteisio ar feddalwedd neu wasanaethau cyflogres ar-lein bydd angen i sicrhau bod rhai elfennau hanfodol yn eu lle. Mae cysylltiad band eang penodedig a dibynadwy yn hanfodol: y cyflymaf yw'r cysylltiad, y gorau fydd y perfformiad. Os yw eich cwmni eisoes yn defnyddio Band Eang Cyflym Iawn bydd y cyflymder yn sicr yn diwallu eich anghenion.

Bydd angen y canlynol arnoch chi hefyd: dyfais gyda mynediad i'r rhyngrwyd (megis cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur, llechen neu ffôn clyfar); Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd i weithredu fel porth rhwng eich dyfais a'r rhyngrwyd; a phorwr gwe neu ap symudol i'ch cysylltu â'r feddalwedd neu'r gwasanaeth cyflogres ar-lein.

Gall meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein amrywio o ddefnyddio eich data i ddarparu slipiau cyflog, ymdrin â'ch holl ddata a’ch cyfrifiadau’n ymwneud â’r gyflogres, i ddarparu swyddogaeth cyflogres sy’n cael ei chyflawni’n gyfan gwbl gan ddarparwr allanol yn y pen draw sy'n cynnig mynediad ‘hunanwasanaeth’ i weithwyr i amrywiol nodweddion y gyflogres ac adnoddau dynol.

Oni bai eich bod yn rhoi'r gwasanaeth cyflogres cyfan i ddarparwr allanol, yna bydd rhywfaint o waith prosesu ac adrodd ar y gyflogres fel arfer yn cael ei wneud o fewn i'r sefydliad a bydd rhywfaint ohono'n cael ei wneud y tu allan iddo. Mae faint rydych am ei wneud yn dibynnu ar faint o ran rydych yn dymuno ei chwarae a pha mor helaeth yw swyddogaethau'r feddalwedd a'r gwasanaethau ar-lein.

### Diffinio eich anghenion cyflogres

Cyn ichi ystyried unrhyw rai o'r gwasanaethau cyflogres niferus sydd ar gael mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn ag anghenion eich sefydliad–yn seiliedig ar wybodaeth fel ei faint a'i strwythur,

yr angen am integreiddio â systemau presennol, a swyddogaeth cyflogres hanfodol. Gall hyd yn oed busnes bach gyda llond llaw o weithwyr fod ag anghenion y mae darparwyr gwasanaethau'n ystyried yn rhai ‘arbenigol’ (gweler yr adran Awgrymiadau Ardderchog).

P'un a yw eich swyddogaeth cyflogres bresennol prin yn bodoli neu eich bod yn neilltuo swm sylweddol o adnoddau iddi, bydd angen ichi gasglu cymaint â phosibl o'r wybodaeth gefndir angenrheidiol cyn edrych ar y feddalwedd a'r gwasanaethau sydd ar gael. Bydd yn llywio eich penderfyniad, yn effeithio ar y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r broses Gwneud penderfyniadau, ac yn dylanwadu ar eich siawns o ddod o hyd i ateb sy'n diwallu eich anghenion orau.

Dylai unrhyw feddalwedd neu wasanaeth cyflogres ar-lein a ddewiswch symleiddio’r gwaith prosesu ac adrodd ar y gyflogres (yn enwedig adroddiadau electronig), arbed amser, sicrhau cyn lleied o wallau â phosibl, a lleihau'r angen i fynd i'r afael â chymhlethdodau fel tablau treth. Ond gall hefyd wneud llawer mwy, yn dibynnu ar faint y sefydliad y mae wedi ei greu ar ei gyfer – a'ch anghenion penodol.

Mae'r arbenigedd a'r gost sydd ar gael ill dau'n ffactorau pwysig. Y mwyaf o waith rydych am i sefydliad arall ei wneud areich rhan, y mwyaf fydd y gwasanaeth yn ei gostio. Pan fyddwch wedi nodi eich anghenion o ran swyddogaethau, cofiwch edrych ar rai o’r opsiynau meddalwedd cyflogres ar-lein; gall guddio cymhlethdodau prosesu ac adrodd ar y gyflogres a'ch helpu i sicrhau bod pethau'n gywir, a hynny’n gyflym ac yn effeithlon.

## Paratoi ar gyfer y cyfnod pontio

Os yw eich prosesau cyflogres eisoes yn cynnwys defnyddio taenlen, meddalwedd cyfrifyddu neu ddarparwr gwasanaeth cyflogres, efallai y bydd angen ichi ystyried mudo data. Os byddwch eisiau mewnforio data o system bresennol, bydd cymorth ar gael i amrywiol raddau, yn dibynnu ar ddarparwr eich meddalwedd neu eich gwasanaethau presennol.

Yn dibynnu ar eich dewis, efallai y bydd angen ichi ystyried cynnwys mudo data, profi meddalwedd, copïau wrth gefn o ddata sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â phryd a sut i fynd yn fyw gyda'r system newydd, yn eich cynlluniau-a chadarnhau faint ymlaen llaw cyn dyddiadau talu a chyflwyno adroddiadau y bydd angen i'ch darparwr gwasanaeth gael data cyflogres gennych.

## Cymerwch gyngor

Mae'n bosibl ichi wneud eich ymchwil ar feddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar lein a gwneud ymrwymiad ar lein heb siarad ag unrhyw ddarparwyr (na chael cyngor gan arbenigwr fel eich cyfrifydd allanol–a all hefyd gynnig meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein). Ond nid yw hyn yn syniad da. Mae dewis mwy hyddysg yn ddewis gwell.

# Ymelwa

## Pa Fanteision Busnes y Gallaf eu Disgwyl?

### Cywirdeb a symlrwydd
Gall meddalwedd a gwasanaethau cyflogres arbenigol helpu cyflogwyr i sicrhau bod y swm cywir yn cael ei dalu i'r gweithwyr ar yr adeg gywir ar ôl i'r didyniadau cywir gael eu gwneud.

### Cymorth i gydymffurfio
Gall meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein dawelu'r pryderon sy'n gysylltiedig â gofynion cydymffurfio sy'n newid yn gyson–fel Gwybodaeth Amser Real ar gyfer TWE.

### Nid oes rhaid uwchraddio meddalwedd
Cewch fynediad i'r fersiwn ddiweddaraf o'r feddalwedd neu'r gwasanaeth ar-lein bob tro a dylai adlewyrchu gofynion rheoliadol diweddaraf CThEM.

### Hyblygrwydd
Mae'r amrywiaeth eang o feddalwedd a gwasanaethau prosesu ac adrodd ar y gyflogres ar-lein yn golygu y gallwch ddewis faint o ran rydych yn ei chwarae mewn prosesu'r gyflogres.

### Mynediad hwylus
Gall cael mynediad i offer cyflogres a gwasanaethau cysylltiedig unrhyw le ac ar unrhyw bryd wneud y tasgau cysylltiedig yn haws i'w cyflawni a'u trefnu.

### Costau bach iawn ymlaen llaw
Gall meddalwedd a gwasanaethau cyflogres ar-lein ddarparu mynediad i arbenigedd ac adnoddau heb yr angen i brynu meddalwedd na recriwtio arbenigwyr cyflogres.

### Arbed amser
Gall cyflwyno data ar weithwyr mewn swmp ar-lein neu ddefnyddio meddalwedd i lunio' r adroddiadau sy'n ofynnol gan CThEM fod yn gyflymach ac yn fwy cywir na gwneud hyn â llaw.

### Diogelu data
Mae eich data bob amser yn cael ei gadw wrth gefn a gallech elwa ar systemau diogel u data a gweithdrefnau parhad busnes cryfach na'ch rhai chi eich hun.

# Awgrymiadau Ardderchog

### Diffiniwch eich anghenion o ran prosesu ac adrodd ar y gyflogres yn ofalus
Cymerwch gyngor gan eich cyfrifydd, darparwr meddalwedd neu wasanaethau cyflogres allanol os bydd angen.

### Dechreuwch drwy edrych i mewn ar eich busnes

Pa sector y mae eich busnes ynddo? Faint o weithwyr sydd ganddo? Pwy fydd yn defnyddio'r feddalwedd neu'r gwasanaeth cyflogres a pha mor fedrus ydyn nhw?

### Edrychwch tuag allan: ewch i wefannau'r darparwyr gwasanaethau

Gwiriwch y nodweddion, y prisiau a'r cytundebau lefel gwasanaeth: beth sydd wedi'i gynnwys ac ar gyfer faint o weithwyr?

### A all ddiwallu eich anghenion ‘arbenigol’?

A yw'n cefnogi grwpiau cyflog, adrannau ac isadrannau amryfal? Cyflog bob pythefnos? Taliadau bonws a chomisiwn?

### Nodwch unrhyw anghenion sector-benodol a allai fod gennych

Efallai y bydd gan sectorau megis recriwtio, gwasanaethau ariannol, elusennau ac adeiladu anghenion na ellir eu diwallu gan bob system neu wasanaeth cyflogres ar-lein sydd ar gael.

### A yw pob un o'ch gofynion yn rhan o’r gwasanaeth sylfaenol?

Efallai mai dim ond mewn rhai fersiynau o system y bydd nodweddion fel costio swyddi ar gael, neu eu bod ar gael fel ychwanegiadau neu drwy gysylltiadau â systemau arbenigol a/neu ddarparwyr gwasanaethau.

### Ystyriwch y ffordd orau o ddiwallu unrhyw anghenion arbenigol

Weithiau gall anghenion arbenigol gael eu diwallu'n well gan feddalwedd diwydiant-benodol, neu wasanaeth gan ganolfan neu ddarparwr gwasanaethau wedi'i reoli.

### Meddyliwch am ofynion adrodd statudol

Nid yw'r holl systemau cyflogres yn cefnogi'r holl ofynion adrodd statudol sy'n gysyllti edig â chyflogau y bydd angen ichi gydymffurfio â nhw o bosibl–er enghraifft, Cynllun y Diwydiant Adeiladu.

### Penderfynwch beth yw eich opsiynau os bydd y feddalwedd neu'r gwasanaeth yn anfoddhaol

A all ddiwallu eich anghenion yn y dyfodol? Beth fydd eich llwybr gadael?

### Meddyliwch yn ofalus faint o gymorth a chefnogaeth arbenigol sydd eu hangen arnoch

A yw ar gael bob awr o'r dydd? A yw’n cael ei ddarparu ar-lein neu dros y ffôn? A godir tâl amdano?

## Canllawiau Perthnasol Eraill

Canllaw SFBW ar Gadw Llyfrau a Chyfrifyddu
http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cadw-llyfrau-a-chyfrifo-ar-lein

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**